"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1887. [RHIF 71.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Iwbil y Frenines	145
Clefyd y Sabboth	149
Beth yw Cristion?	150
Y Cwch	153
Pob Peth yn ei Fan ei Hun	155
Dysgu Gwneuthur Daioni	156
Samuel W. Humphreys	158
Post-Card Symposium	160
Nodynau Gwasgarog	163
Manion a Hanesion	166
Marwgofion	167

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] GORPHENAF, 1887. [Rhif 71.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

IWBIL Y FRENINES (1837—1887).

Cyn y bydd ein rhifyn am Orphenaf yn llaw ein darllenwyr, bydd yr Iwbil wedi myned yn adsain ac adgof yn unig. Yr ydym yn ysgrifio y llinellau hyn ar foreu mawr y dathliad cyffredinol (Mehefin 21), yn swn clychau'r Llan a seindorf y gwirfoddolwyr, ac o fewn golwg i'r banffaglau mawrion fyddant, cyn canol nos heno, yn ceisio gwneuthur adeg y tywyllwch yn adeg goleuni dysglaer, yn adgof, nid yn unig am gynnydd hanner can' mlynedd ar lwybr gwareiddiad, ond hefyd, am ddull ein cyndeidiau yn yr oesoedd boreu i fanffaglu neu delegraffio gwybodaeth neu rybudd ar draws y wlad.

Wrth ddarllen Lefiticus xxv., ceir gweled pa beth oedd dyben yr Iwbil Iuddewig, a chyfleusdra i athronyddu ychydig ar ba mor bell y byddai yn llesiol i adnewyddu yr arferiad yn ein dyddiau ni. Mae rhediad llwybr blaen-fynediad mor dueddol i redeg gydag amser oddiwrth y naturiol i'r celfyddydol neu *artificial*, fel yr ymddengys adegau arbenig o'r fath yma yn adegau cyfleus i geisio esgyn ein dysgwylfaoedd, ac ystyried, a holi ein hunain yn mha le yr ydym—a ydym, mewn gwirionedd, yn rhyddion ar lwybr glân cynnydd a blaenfynediad, ynte nad ydym. Un o brif ddybenion yr Iwbil Iuddewig oedd ceisio dychwelyd cymdeithas, fwy neu lai, yn ol i gyflwr natur, ceisio gwneuthur y cam yn gymhwys, &c. Dylai ein Iwbil ni fod yn olwg ol a blaen.

Edrychir ar y pwnc oddiar wahanol safleoedd gan wahanol bersonau, ac yn ddigon possibl y ceir clywed am eithafion o'r ddau tu: bydd rhai yn tueddu i organmol, ac ereill yn methu gweled yn yr oll ond dinystr a gwastraff ar drugareddau; er hyny, mae yr Iwbil yn *fact* mewn hanesiaeth ac yn *factor* pwysig yn ein cynnydd gwladol. Mae ein Brenines

yn ferch i Edward, mab ieuengaf y trydydd George. Ganwyd hi 1819, esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei hewythr William IV., Mehefin 20, a choronwyd hi Mehefin 28. *Vivat Regina!* Yn holl hanes ein gwlad ni nid oes ond tri phen coronog wedi llywodraethu am 50 mlynedd, sef Henry III., Edward III., a George III. Dathlwyd Iwbil yr olaf yn 1809, Hydref 25, a barnwn fod rhai gweddillion o'r dathliad hwnw yn aros yn Nghymru hyd y dydd hwn.

Wrth fwrw ein golwg yn ol dros yr hanner can' mlynedd, gallwn edrych ar ein Brenines yn ei chyssylltiadau personol, fel merch, fel gwraig, fel mam, fel gweddw, fel menyw, ac yn yr oll ni a'i cawn yn deilwng o gymmeradwyaeth uchel, ac yn cymharu yn ffafriol iawn yn mhob rhinwedd teuluaidd â'r rhai a fuont o'i blaen; ac mewn cyssylltiad â'i swydd, os nad yw wedi bod yn bobpeth a ddymunai rhai, y mae wedi bod yn ganmoladwy iawn, er gwaethaf llawer o anhawsderau a rhai profedigaethau chwerwon. Cofier mai menyw ydyw, ac ni ddylid annghofio fod rhai o'r ffaeleddau tybiedig yn ffrwyth ei sefyllfa a'i hamgylchiadau.

Mae rhai yn gomedd iddi air da am nad oes ganddynt gred mewn llywodraeth unbenol. Nid yw hyny, pa fodd bynag, os yn ddiffyg, ddim yn ddiffyg o'i thu hi: dan unbenaeth y ganwyd hi a ninau, ac ni wenodd haul erioed ar unbenaeth ragorach. Nad beth yw ein tynghed ddyfodol, dan unbenaeth yr ydym yn bresenol; ac nid yw ond mympwy dwl a dall a chwenychai weriniaeth drwy chwyldroad; gweriniaeth ansefydlog fydd gweriniaeth nad yw wedi ei sefydlu ar ddymuniad a gwybodaeth y deiliaid. Os oes gweriniaeth yn ein haros yn y dyfodol, gadawer iddi fod yn dyfiant naturiol, yn ffrwyth rheswm ac argyhoeddiad y bobl. Ni wnaiff trosglwyddiad o weriniaeth dramor ddim o'r tro i ni. Nad pa mor hardd yr ymddengys yr *exotic* i ni, nid yw yn *suitio* ein *climate.*

"Daioni mwyaf y rhifedi mwyaf" ddylai amcan llywodraeth fod, meddai Jeremy Bentham ar ol Dr. Priestley. "Of and for and by the people" ydyw y *motto* heddyw, a'r hanner can' mlynedd diweddaf sydd wedi gwneuthur y syniad hwn yn un sylweddol ac ymarferol. Cynnydd trwy ddadblygiad ddymunwn ni yn y wlad hon, ac nid cynnydd trwy chwyldroad, fel yr ydys yn ei gael yn Ffrainc. Mae llawer brwydr wleidyddol wedi ei hennill genym yn ystod yr hanner can' mlynedd gorphenol, ond yr ydym yn gweled llawer uchelfan etto nad ydym wedi ei feddiannu. Ni ddylai hyny, pa fodd bynag, ein digaloni: dyna waith y dyfodol—parhau i yru y faner, "*Excelsior,*" i fyny.

Yn y cyfamser, byddwn ddiolchgar am ein hennillion. Nid oes un dosparth o bobl nad ydynt yn well *off* nag oedd eu tadau: hyd y nod yr iselaf, braidd, fe'u bwydir yn well ac fe'u gwisgir yn well. Yr oedd newynu wrth y miloedd yn beth possibl flynyddoedd yn ol. Mae sefyllfa cymdeithas gyda'i gilydd yn iachach ac yn well heddyw.

Yr ydym yn achwyn ar y trethi heddyw, ond nid ydynt yn debyg i'r hyn oeddynt. Y mae yn anhawdd genym ni ddychymygu mor ddyfeisgar oeddynt gynt i gael gafael yn arian y bobl. Fel hyn y mae un hen fardd yn canu:—

"Fe ranwyd treth eleni erioed ni ordeiniodd Duw—
Treth am gladdu'r meirw a threth am eni'r byw,
A threth am ddw'r yr afon a threth am oleu'r dydd,
A threth am fyn'd i'r cwlwm a threth am fod yn rhydd!
Ac wedi geni'r plentyn, yn fethiant ac yn wan,
Mae deuswllt wedi selio i'w talu yn y man!
A phedwar swllt am gladdu, aeth hyny'n arian mawr;
Y gwyr a'r gwragedd mwynion, a ro'wch chwi——."

Yn y *debate*, yn 1848, yn Nhy y Cyffredin, pan geisiodd Arglwydd John Russell wneuthur cynnydd mawr yn nhreth yr incwm, gwnaeth Cobden (nid ydym mor ddiolchgar am waith gwleidyddol Cobden ag y dylem fod) y sylwadau hyn:—"While the House frets over its sevenpence in the pound, the poor are paying twice that number of *shillings* in the great staples of their consumption. For every 20s. the working classes expend on tea they pay 10s. of duty, for every 20s. they expend on sugar they pay 6s. of duty, on coffee 8s., on soap 5s., on beer 4s., on tobacco 16s., on spirits 14s. . . . . Both for the sake of trade and for the sake of the people, you must diminish your expenditure or increase the amount of your direct taxation." Diolch i Mr. Gladstone a Cobden a Bright, yr ydym bron cyrhaedd "Free Breakfast Table." Mae yn rhaid wrth drethi, ond dylid rhyddhau "angenion" bywyd mor bell ag sydd bossibl oddi wrth drethi. Trethu'r dybacco yn hytrach nâ'r tê, onide? a'r gwirodydd meddwol yn hytrach nâ'r bara a'r siwgr. Ac y mae yn ddiamheu ei bod yn llawn bryd etto i roddi bywyd yn yr hen arwyddair Rhyddfrydig sydd bron wedi ei annghofio, "Peace, Retrenchment and Reform."

Y mae ein gofod yn cyfyngu arnom, ac etto, ni allwn osod ein hysgrifell o'n llaw heb gyffwrdd â rhai pynciau ereill; ond rhaid yw bod yn fyr. Mae llwybrau ein cynnydd wedi cymmeryd llawer cyfeiriad. Pan esgynodd ein brenines i'r orsedd (1837), yr oedd Arglwydd Melbourne yn Brif Weinidog, ac yn 1839, pasiwyd cynllun "*penny post*" Rowland Hill. Dywedai y diweddar S. R., mai ei eiddo ef oedd y cynllun. Hill, fodd bynag, sydd yn cael y clod, ond y mae'r cyhoedd yn cael y lles. Yr oedd y "*newspaper stamp duty*" wedi ei ostwng i geiniog yn 1836. Ni symmudwyd y dreth ar y papyr hyd 1861, a'r pryd hyny y daeth y newyddiadur ceiniog a'r llyfrau rhad yn bossibl. Yn y blynyddoedd hyn yr oedd Daniel O'Connell yn ffigwr mawr mewn cymdeithas, a phwnc yr Iwerddon, wrth gwrs, o hyd yn tynu sylw. Yn 1846, pasiwyd y ddeddf yn dyddimu treth yr ŷd, gan Syr Robert Peel, ac ychydig yr ydym wedi ei wybod oddiar hyny am fara drwg neu fara drud. Yr oedd Syr Robert yn rhoi *credit* y mesur hwn yn benaf i Cobden. Methiant y tatws, 1845, a'r newyn yn Iwerddon, 1846. £10,000,000 yn cael eu fotio er *relief* y Gwyddelod. Cynhwrf y Siartiaid, 1848. Cynhwrf Rebecca, 1843. Helaethiad yr Etholfraint, 1832, 1867, 1885. Heblaw hyn, yr ydym wedi cael mesurau yn nghyfeiriad mwy o gydraddoldeb rhwng y crefyddau: Agoriad y Prif Ysgolion, Dyddimiad y Dreth Eglwys, Deddfau'r Mynwentydd, &c.; ac yn Nghymru mae rhai yn meddwl llawer am y *Sunday Closing*.

Am ryfeloedd y cyfnod, fe gofir am China, Crimea, yr Unol Dalaethau, rhwng Awstria a Prwssia, Ffrainc a Prwssia, Aifft, Affghanistan, &c.; ac am y rhan fwyaf o honynt, byddai yn anhawdd heddyw i roddi rheswm digonol. Ymddengys fel pe byddai rhyfeloedd cymdeithasol, megys *strikes* a *lock-outs*, wedi eu dwyn i derfyniad trwy ddefnyddio ychydig synwyr cyffredin; ac nid ydym yn gallu gweled paham na ellid cael digon o synwyr cyffredin yn Ewrop er sefydlu math o *European Federation*, a'r penderfyniad felly o bob pwnc mewn dadl trwy gyflafareddiad. Caffed y werin bobl ddigon o synwyr, ac fe attelir naw o bob deg o'r rhyfeloedd sydd yn dwyn gwarth ar ein dynoliaeth. Meddai Shakespeare :—"War is a game, which, were their subjects wise, kings would not play at."

Y mae egwyddor Rhyddymofyniad wedi dwyn llawer o gyfnewidiadau, a barnwn fod genym ni, fel Undodiaid, fwy o le i ymgalonogi nag un enwad arall. Rhaid i ychydig enwau, fodd bynag, wneuthur y tro yn bresenol. Mae y mudiad uchel eglwysig a gychwynwyd yn Rhydychain yn 1833, gan Newman, Pusey, Keble, &c., wedi ac yn parhau i ddylanwadu yn fawr. Mudiad yn nghyfeiriad Rhufain yw hwn, ac aeth Newman ei hun drosodd yn 1845, ac y mae llawer wedi ei ganlyn oddiar hyny. Wedi hyny, cawn y *Broad Church*, y blaid sydd yn ceisio rhesymoli a lleddfu ychydig ar yr athrawiaethau. Mae Maurice yn enw mawr yma. Yr oedd Frederic D. Maurice yn fab i Matthias Maurice, gweinidog yr Undodiaid yn Frenchay, ger Bristol, ac yr oedd yr olaf, feddyliwn, yn wyr i un Matthias Maurice, o Sir Benfro. Cariodd Frederic gydag ef oddiar aelwyd ei dad y syniad o dadoldeb Duw, yr hyn a'i hanalluogodd i gredu mewn uffern dragwyddol, ac a'i gwnaeth yn afiach yn y ffydd boblogaidd mewn cyfeiriadau ereill. Yn lle pwysfawru (*emphasize*) y groes yn ol dull yr enwadau, gosodai ef y pwys ar yr ymgnawdoliad, hyny yw, ar yr oll o fywyd Crist. Enwau ereill yn y cyfeiriad hwn ydynt Whateley, Arnold, Stanley a Jowett. Mae llawer o'n darllenwyr yn cofio am ffrwgwd yr "*Essays and Reviews*," ac yn enwedig am Rowland Williams, o Goleg Llanbedr; am Colenso a'i lyfrau ar y Pentateuch. Yr oedd Colenso wedi ennill enwogrwydd trwy ei lyfr ar Rifyddiaeth; ond darfu i'r Zulu paganaidd ddyrysu y rhifyddwr mawr trwy ei sion-holi medrus, a'i arwain i efrydiaeth *fresh* o'r pynciau crefyddol. Y canlyniad fu iddo newid ei farn, a myned yn *heretic* yn ngolwg ei gydeglwyswyr; ond yr oedd yn hawddach galw *heretic*, a cheisio dinystrio Colenso nâ'i ateb. Yn mhen rhai blynyddau, fodd bynag, cyhoeddwyd y "*People's Commentary*" mewn ffordd o atebiad, ond yn marn llawer nid oedd fawr yn fwy *orthodox* nâ Colenso. Nid oes eisieu ond crybwyll Ecce Homo, y Prof. Seeley, yr hwn a wnaeth gynhwrf mawr ar ei ymddangosiad, a'r hwn y ceisiodd Mr. Gladstone yn un ei ateb; a'r ffrwgwd y dygodd Deon Westminster ei hun iddo, trwy wahodd y pwyllgor oedd i "Ddiwygio'r Beibl" i gyfranogi o'r cymmun yn yr Abbey cyn dechreu ar eu gwaith. Y pechod mawr oedd, fod yr Undodwr, Dr. Vance Smith, yn un o'r pwyllgor.

Enwau ereill ag ydynt awgrymiadol o'r cyfnewidiadau mae y meddwl wedi myned trwyddynt yn y cyfnod dan ein sylw ydynt Lyell, Lubbock, Tyler, Huxley, a Darwin. Yr un ysmotyn du heddyw ar faner Prydain Fawr ydyw yr Iwerddon. Fel y tlodion, mae yr Iwerddon gyda ni bob amser. Am saith can' mlynedd, yr ydym wedi ceisio ei heddychu trwy drais a gormes, a gallwn feddwl ei bod yn bryd bellach i edrych am ryw lwybr arall—rhywbeth tebyg i gynnygiad Mr. Gladstone. Mae yn dost meddwl mai gorchest mwyaf Senedd blwyddyn yr Iwbil yw y mesur newydd i ormesu yr Iwerddon; gobeithiwn fod yn y dyfodol buan rywbeth i ddyfod allan a ddwg yr holl deyrnas i unfrydedd teimlad, fel y gallom bawb o bob rhan o'r wlad deimlo fod ein gwlad yn un y gallwn o galon ymffrostio ynddi fel y fwyaf a'r oreu o wledydd y byd.

CLEFYD Y SABBOTH.

Clefyd y Sabboth! wel, dyma i chwi glefyd!
  Mae'n curo pob clefyd a welais erioed;
Gofynwch i'r person sydd dan ei ddylanwad
  Pa fodd mae yn teimlo, ateba'n ddioed,
"Curiadau'n fy mhenglog, a'r poen yn fy ochrau,
  A'r gwaew—mae yntau yn d'od ar ei hynt;"
Ond d'wedaf fan yma, 'fu'r un o'r rhai hyna
  'N ei flino er pan ymadawsant Sul cynt.

Mae'r dyn drwy yr wythnos yn gweithio yn heiny'
  Gan herio pob gorchwyl ddaw 'mlaen yn ddigryn;
Ond boreu y Sabboth, pan fyddo ar godi,
  Dechreua y poenau ddirdynu y dyn;
Mae'i beswch a'i anwyd fel pe yn gwaethygu,
  A'r ddannodd, mae hithau am ddangos ei hun,
Os nad y'ch yn credu beth wyf yn ei draethu,
  Edrychwch i'w gartref, cewch weled ei lun.

Mae'r dyn ar nos Sadwrn yn gwisgo'n drwsiadus,
  Er myned i'r dafarn, neu rywle ar daith,
Mwynha iechyd campus a theithia yn hwylus,
  Mae ganddo'r un gallu a phan yn y gwaith;
Ond boreu y Sabboth, tra'r dyrfa'n addoli,
  Ar ganol ei fwthyn gwna sefyll fel post;
Gwrandewch arno'n cwyno a dweyd beth sydd arno
  Wel, dyma ddyweda, "'Rwy'n sobr o dost."

Wel, dyna ddarluniad annhrefnus o'r clefyd,
Sy'n blino y bobl yr oes hon o'r byd,
Waeth beth a gynnygiwch i'w feddyginiaethu,
Gwaethygu yn raddol mae'r clefyd o hyd;
Mae'r *quacks* a'r doctoriaid i gyd wedi methu
Cael cyffyr priodol i wella yr un,
Ond mae yma feddyg wna'i wella heb oedi,
Ac enw'r un hwnw yw—boreu dydd Llun.

Craigtrebanos. IOAN TREBANOS.

BETH YW CRISTION?

[*Papyr a ddarllenwyd gan y diweddar Barch. W. Thomas, M.A. (Gwilym Marles), yn Nghynnadledd y Cyfarfod Blynyddol a gynnaliwyd yn Nghapelygroes yn Haf y flwyddyn* 1863.—W. J.]

YN hytrach nâ myned amgylch-ogylch, dywedaf ar unwaith pa beth, yn ol fy marn I, yw Cristion. Fel nad wyf yn caru cael, fy hun, fy rhwymo wrth farnau ereill, felly, nid oes ynof y dymuniad lleiaf ar fod i neb rwymo ei farn wrth yr eiddo fi.

Fe ddywedodd dyn enwog fel hyn:—"Y sawl a ddechreuo trwy garu Cristionogaeth yn fwy nâ'r gwirionedd a aiff yn mlaen i garu ei eglwys ei hun yn fwy nâ Christionogaeth, ac a ddybena trwy garu ei hun yn fwy nâ'r eglwys hono." Dywedaf finau, pan yn son am yr enw, "Cristion," a dadleu gan bwy mae'r hawl iddo, a phethau cyffelyb, cofiwn fod enw ag sy henach ac eangach ac anwylach genyf fi, yr hwn nid yw Cristionogaeth ond yn ein helpu iddo—DYN.

Cristion yw pwy bynag ag sydd yn teimlo ac yn arddel perthynas rhyngddo ag Iesu Grist; pob un sydd â'i amcan a'i duedd at ddaioni ac a deimla fod yr Iesu yn ei helpu iddynt; pob un y mae yr Iesu yn arweinydd iddo at y Tad; pob un, yn ei awydd am fyw y gwir fywyd ar y ddaear, a greda i'r Iesu roddi iddo esiampl fel y dylynai ei ol. Yr wyf yn rhwydd addef y gall un fod yn ddyn da, rhinweddol, nid annheilwng o gael ei gymharu â'r sawl a alwo ei hun yn Gristion, ac etto, heb ganddo hawl i'r enw hwn. Nid ydym yn galw pob dyn da yn Gristion. Ni fyddai priodoldeb yn hyny. Rhaid fod dyn yn edrych i fyny at yr Iesu fel ei athraw a'i gyfarwyddwr; ei fod yn cael ei ennill a'i dynu â rheffynau cariad at y Tad, gan addysg a buchedd yr Iesu. Nid yr unig ddyn da yn y byd yw'r Cristion, ond y dyn da hwnw a helpir i'w ddaioni gan Grist. Mae miloedd o baganiaid, o Fahometaniaid, o Iuddewon, yn ddynion da, ond nid ydym yn eu galw yn Gristionogion, am nad oes a fynont â Crist, am mai trwy *channels* ereill y dysgant ddyfod yn dda. Rhaid fod perthynas â Crist yn cael ei harddel cyn fod priodoldeb yn yr enw. Rhaid fod dysgeidiaeth

Crist yn anwyl ganddo; rhaid ei fod yn mawrhau ac yn glynu wrth yr athrawiaeth fawr a gyhoeddwyd gan Grist gyda'r fath eglurdeb: Cariad at Dduw a dyn. Rhaid ei fod yn edrych ar y ddysgeidiaeth hon fel yn cynnwys y cyfan o bwys; fel yn grynodeb o'r wybodaeth i'w profiad uwchaf. Y mae modd i ddyn ei gyrhaeddyd. Dyna fy ngolwg bersonol I ar "beth yw Cristion?"

Nid wyf heb wybod fod llawer o ymladd am enwau yn mhlith dynion ac yn mhlith Cristionogion hefyd. Mae yr enw o Gristion wedi dyfod yn deitl mor barchus ac mor anrhydeddus a manteisiol, fel mai naturiol yw fod cryn awydd am dano ar bawb yn ein gwlad; ac fel y dygwydd dan y fath amgylchiadau, nid digonol gan lawer i hawlio yr enw iddynt eu hunain, ond er gwneyd eu hunain yn fwy cyssurus, a dwyn pethau i well trefn, fel y tybiant, rhaid iddynt fyned yn mhellach, a gwadu i bawb ond eu hunain unrhyw hawl i'r teitl. Gwlad fechan yw Cymru, ac etto, yn mhlith yr ychydig Gristionogion sydd yma, mae hi yn ymryson poeth, ac weithiau, chwerw, yn nghylch yr hawl i'r enw o Gristion. Hwynt-hwy ydynt y Cristionogion; yn ol llawer, nid oes gan neb ond a barablo eu Shibboleth hwy hawl iddo. Yn awr, nid yw enw yn y byd, ynddo ei hun, fawr o beth; etto, cystal cael chwareu teg mewn perthynas i enw. Pe gomeddai rhywun i mi yr enw o Gristion, byddai fy nghydwybod mor iach, fy ngharitor mor loew, fy nefnyddioldeb, efallai, mor helaeth, ag o'r blaen. Galwer fi, fel enghraifft, yn Ddeist, yn Atheist, neu rywbeth gwaeth, os oes gwaeth yn bod, yr un peth fyddaf fi—yr un peth fy egwyddorion, fy ngolygiadau, fy rhinwedd, fy ngharitor. Etto, cystal cael dealldwriaeth deg ar y mater—cystal cael chwareu teg, a gweled pa fodd y safwn.

Nid wyf heb wybod hyn:—Mae llawer mwy o gydolygu yn nghylch *nodweddiad* yr hwn a deilynga gael ei alw yn Gristion nag yn nghylch y syniadau neillduol sydd iddo i'w coleddu. Cytunir yn lled ddieithriad gan Babyddion a Phrotestaniaid, gan Drindodiaid ac Undodiaid, pa fath fuchedd ac ymddygiad sydd yn rhyglyddu y teitl o Gristionogol. Mae llawer mwy o annghyd-ddealldwriaeth gyda golwg ar yr opiniynau sydd i'w dal—y gred. Y gred—dyna'r pwnc mawr. Fe benderfynir ar ryw bwnc neillduol—rhyw opiniwn neu athrawiaeth—fel y safon neu y maen prawf; dyma lle gorwedd yr achos o'r holl ddrwg—o'r penderfynu pwy sy Gristion. Rhaid parablu y Shibboleth. Oblegyd hyn ni chaniata y Pabydd yr enw Cristion i'r Protestant. Y Protestaniaid, o honynt hwythau, wedi dysgu cymmaint â hyn gyda'r rhai oddiwrth y rhai yr aethant allan, a honant nad Cristionogion neb ond hwy. Ymrana'r Protestaniaid wed'yn yn ddiddiwedd braidd, a beiddia llawer sect hawlio yr enw iddi ei hun, gan ei wadu i ereill, yn meddwl ei bod wrth hyn yn gwneyd gwasanaeth i Dduw. Oni bai fod y peth yn rhy ddifrifol, byddai yn ddigrif aros am funyd i sylwi ar Brotestaniaid yn melldithio ar ben cyfeillion y Pabyddion, ac heb ymfoddloni ar hyny, yn troi i felldithio eu gilydd, gan geisio, hyd ag y mae eu gallu hwy yn cyrhaedd, eu cau allan o'r hawl i alw eu hunain yn Gristionogion. "Beth! 'ych chwi ddim yn dal mai Undodiaid ydynt yr unig Gristionogion—nad oes gan neb hawl gyfreithlawn i'r

enw ond hwy?" Nac wyf. Gwareder fi rhag y fath ryfyg a'r fath gulni a'r fath annghyssondeb. Nid wyf yn golygu mai Undodiaid ydynt yr unig Gristionogion yn y byd; nid wyf yn golygu mai Protestaniaid ydynt yr unig Gristionogion yn y byd ychwaith. Yr wyf wedi rhoddi fy esponiad fy hun o'r hyn a ddeallaf wrth Gristion; ac y mae genyf sail dda i gasglu fod llawer o Babyddion yn fwy o Gristionogion nâ llawer o Brotestaniaid, ac fod llawer o'n cyfeillion y Trindodiaid yn fwy o Gristionogion nâ llawer o Undodiaid. Fe wyr y rhai a'm hadwaenant nad wyf fi na Phabydd na Thrindodwr, ac etto, yr wyf gyda mynwes rydd yn gwneyd yr addefiad hwn. Nid wyf o'r farn fod y teitl, "Cristion," i'w gyfyngu i na sect na phlaid, ond y ceir yn mhob sect a phlaid rai yn deilwng o hono. Pwy bynag a amlygo, ac yn ol y graddau yr amlygo debygolrwydd i'r Iesu mewn yspryd ac ymddygiad, yr wyf yn galw hwnw yn ngwir a phriodol ystyr y gair yn Gristion.

Mae dadl yn bod gyda golwg ar bwy ddylai gael ei alw'n Gristion. Fe fyn rhai y rhaid i chwi ddal rhyw gred neillduol cyn y caffoch hawl i'r enw. Cydunir ar ryw bwnc neillduol, a dyrchefir hwnw i fod yn faen prawf i benderfynu'r mater. Rhaid i'r Pabydd gredu yn anffaeledigrwydd y Pab, ac anffaeledigrwydd yr eglwys, ar yr hon y mae'n ben; rhaid i'r Protestant gredu yn anffaeledigrwydd y Beibl; deil rhai, os nad pawb Trindodwyr, y rhaid credu yn y Drindod; deil y Calfin y rhaid llyncu'r pum pwnc; deil rhai Undodiaid y rhaid credu yn yr Undod, neu feallai, yn y cenedliad gwyrthiol—i Fab y Dyn gael ei eni o forwyn, ac yn yr holl wyrthiau ereill a ganlynant eu gilydd yn hanes yr Iesu—mae yr holl rai a nodasom yn dal y pethau a grybwyllwyd fel *tests*, nad oes genych hawl i annghyddffurfio â hwynt heb fforffetio'r enw o Gristion. Mae'r *tests* yn amrywio llawer—ond mae'r egwyddor yr un, tra y penderfynir ar unrhyw erthygl y rhaid ei derbyn. Mae'r egwyddor yn y Protestant yr un peth ag yn y Pabydd—yn yr Undodwr ag yn y Trindodwr, cyhyd ag yr haerir nad ydych, ac nas gellwch fod, yn Gristion, tra heb fod yn derbyn yr opiniwn hyn a'r opiniwn. Adroddir i ni mai un o'r pethau penaf sy'n rhanu rhwng dwy blaid o Fahometaniaid yw hyn, pa un ai yn y benelin neu yn mlaen y bys y dylid dechreu golchi; mai y naill a'r llall wedi cyduno ar hyny fel *test* neu faen prawf; edrych y gwr a ddechreua yn y benelin ar y sawl a ddechreuo yn mlaen y bysedd fel heb ganddo hawl i'r enw o Fahometan. Yn gywir fel y gomedda y naill sect o Gristionogion yr enw Cristion i sect arall, am nad yw yn dechreu credu nac yn dybenu credu lle y gwna hi. Carwn ymhelaethu, ond nis gallaf, gan fod yr amser yn myned yn mhell, ond dywedaf hyn, fel y sylwodd Milton, "He is the only heretic who counts all heretics but himself," "Efe yw'r unig heretic, yr hwn a gyfrif bawb yn hereticiaid ond ei hun." Felly, dywedaf finau, Yr agosaf i ddyddimu ei hawl i'r teitl o Gristion yw yr hwn sydd am ei wadu i bawb ond ei hunan. Dywedaf etto, Y sawl a elo at y Tad ar hyd llwybr yr Iesu, a addolo'r Tad fel y gwnaeth yr Iesu, a ymosodo ar ddrygau ei oes a'i wlad fel y gwnaeth yr Iesu, a oddefo wrthwynebiad a dirmyg yn yspryd yr Iesu, a ddy-

muno yn dda i'w wrthwynebwyr a'i elynion fel yr Iesu; mae hwn yn Gristion yn fy ngolwg. Ar yr un pryd, nid wyf am ddyrchafu fy argyhoeddiad personol I yn safon i brofi ereill wrthi; er mor werthfawr yn fy ngolwg fy hun y gred hon, nid wyf yn myned i wadu'r enw o Gristion i bwy bynag a ddygwyddo annghytuno â hi yn ei ymchwil am y gwirionedd.

"Am drefn ffydd ymladded y disynwyr mawr ei sêl,
Nid drwg yw cyflwr hwnw, os cyfiawnder oll a wnel."

Y CWCH.

Yr oedd tad y llencyn bychan John Cole yn mron marw, a chan nad oedd ganddo unrhyw feddiannau i adael ar ei ol i'w wraig a'i blant, teimlai yn bryderus ac yn annedwydd iawn. Yr oedd Johnny wedi clywed y byddai i'w dad farw; ond nis gwyddai beth oedd ystyr marwolaeth: ac o ganlyniad, gyda holl ddiniweidrwydd llencyn da, gofynodd i'w dad beth allai efe wneyd i'w helpu.

"Ni elli roi un help i mi, Johnny," meddai'r tad sal, "ond, pan y byddaf fi wedi myned, ti a elli helpu dy fam."

"I b'le yr y'ch chwi yn myn'd?" ebai John. "Oni wnewch adael i mi dd'od gyda chwi?"

"Na, 'all neb ddod gyda mi: rhaid i mi fyn'd fy hunan."

"Wel, pa bryd y deuwch yn ol?" meddai yr un bach. "Gwyddoch ein bod ni yn ymddybynu arnoch am arian i brynu ein bara."

"Ni ddeuaf byth yn ol, fy machgen anwyl. Pan fo pobl yn marw, nid ydynt byth yn dod 'nol."

"Wel, yr ydych yn bwriadu anfon am danom ni, ynte, nhad, oblegyd nis gallwn fyw heboch chwi."

"Ti dori fy nghalon, Johnny, os siaradi fel hyna. Wna' I ddim danfon am danoch, ond fe wna Duw, a phryd hwnw ni a gawn gyfarfod etto. 'Nawr, machgen anwyl I, rhaid i ti aros gyda dy fam, a cheisio ei gwneyd yn hapus."

"Mi a wnaf," ebai Johnny, "ond nis gwn pa fodd. Gwyddoch nas gallaf weithio. Gallaf, mi allaf wneyd cysgod o estyll, a'u gwerthu nhw."

"Ti a elli wneyd yn well nâ hyny," meddai ei dad; "ti elli fod yn fachgen da, i ymddwyn yn dda, a charu dy fam, a gwna hyny ei helpu yn well nag un gwaith elli di wneyd."

"Wel, mi wnaf hyny," meddai Johnny, "ond ni wna pobl garu mam am fy mod I yn ei charu, ac o ba le daw'r bara?"

"Fe ddenfyn Duw ef, os byddi di yn dda," meddai y truan wr, nas gallai braidd siarad, gan gymmaint yr effeithiai siarad diniwed ei blentyn bach arno.

Nid oes raid i ni ddweyd sut bu'r tad farw, na sut y bu raid i'r weddw dlawd fyned i ystafell unig, a gweithio'n galed bron bob dydd i gynnal Johnny a'i chwaer fach. Gwnaeth Johnny gymmaint a allai i helpu ei fam; a gwnaeth lawer iawn, oblegyd pan oedd ei fam allan yn gweithio, gofalai efe am Sis fach, a phan oedd yn cysgu ryw ddiwrnod, cymmerodd gyllell oedd yn perthyn i'w dad, a gwnaeth yr hyn a alwai efe yn gwch, allan o astell, ac yna safodd wrth y drws, a gofynai i bob un elai heibio i'w brynu. "A oes arnoch eisieu prynu cwch," meddai, wrth grwtyn mawr a basiai heibio.

"Dos o'm golwg," meddai hwnw, a thaflodd y cwch i wyneb Johnny, a thorodd y *mast*. Yr oedd calon y llencyn tlawd bron a thori hefyd, ond gwnaeth *fast* arall, a safodd wrth y drws drachefn. Daeth dwy ferch fechan heibio, a gofynodd Johnny a oedd arnynt eisieu prynu cwch.

"Beth ydych yn ei alw?" "Cwch," ebai un o'r merched. "Rhyw gwch od iawn yw." "'Dyn ni ddim yn hwylio cychod," meddai'r llall.

"Wel, 'wyddoch chwi ddim faint o bleser a digrifwch sydd wrth hyny," meddai'r adeiladydd cychod.

"'Dyn ni ddim am wybod,' meddent, gan gerdded ffwrdd, a chwerthin am ben Johnny, druan.

Maeslaw aeth swyddog y llong ryfel a orweddai yn y porthladd heibio. "A welwch chwi'n dda i brynu fy llong?" meddai Johnny, yn daer iawn.

"Ai chwi a'i gwnaeth hi?" meddai'r swyddog.

"Ie, fi a'i gwnaeth i gyd," meddai Johnny.

"Pwy roddodd yn eich pen i wneyd llong?" meddai y dyn tynergalon.

"Wel, Syr, er mwyn i chwi gael gwybod," ebai'r llanc, "'does gan Sis ddim bara i'w fwyta, a meddylians yr awn i weithio i ennill arian, a phrynu bwyd."

"Pwy yw Sis?" meddai'r cadben.

"P'am, 'wyddoch chwi ddim pwy yw Sis?' meddai Johnny, "Edrychwch i fewn yma." Felly, fe aeth y swyddog i fewn, a gwelodd Sis yn cysgu ar y gwely.

"I bwy y perthynwch chwi?" meddai'r cadben.

"I mam, 'nawr," meddai Johnny, "oblegyd mae 'nhad wedi marw, ac wedi myned ffwrdd." Gyda hyn, agorodd Sis fach ei llygaid, ac wrth ganfod gwisg y swyddog, dechreuodd chwerthin.

"Faint ydych yn 'mofyn am eich llong?" meddai'r cadben.

"Dimai, os na ellwch roddi rhagor," meddai Johnny.

Canmolodd y cadben ef, a dywedodd, "Aroswch ychydig funydau, deuaf 'nol yn union a phrynaf eich llong." Aeth allan, a phrynodd ddwy dorth fawr o fara, carodd nhw 'nol, a rhoddodd nhw i Johnny.

"Ai chwi yw Duw?" meddai'r plentyn, gyda'i lygaid fel dwy seren.

"Nage," meddai'r swyddog, "'dwy I ond un o'i weision." Rhoddodd ei law yn ysgafn ar ben Johnny, a dywedodd wrtho am fod yn fachgen da, ac y deuai efe drachefn i weled ei fam. Fe ddaeth drachefn, ac

wedi cael holl hanes y teulu, addawodd gymmeryd gofal o honynt; a phan y tyfodd Johnny yn fachgen mawr, cymmerodd ef ar fwrdd ei long, ac yn mhen amser, gwnaeth swyddog o hono, a mabwysiadodd ef. Ac ar ol brwydr, pan oedd yn marw, o herwydd y clwyf oedd wedi ei dderbyn, gofynodd i Johnny, yr hwn oedd yn awr yn Is-gadben Cole, am estyn iddo y blwch oedd ar y bwrdd. "Agorwch ef," meddai'r cadben, gan roddi iddo allwedd. "Beth welwch chwi yna?" ebe'r cadben.

"Dim ond fy nghwch estyllod I," meddai Johnny.

"Pan y gwnaethoch chwi y cwch yna, chwi a wnaethoch eich ffortiwn," meddai'r cadben. "O dan y cwch mae fy ewyllys olaf, ac mae fy holl gyfoeth yn eiddo i chwi."

Daeth John yn ddyn cyfoethog, a theilyngodd ddod.

'Nawr, beth yw dyben yr hanesyn hwn? Dim, ond eich dysgu chwi, os ydych yn dda, ac yn awyddus i helpu y sawl a alloch oddiamgylch i chwi, y dengys Duw ryw ffordd i chwi wneyd hyny. Peth bach iawn oedd y cwch estyllod i'r crwtyn dideimlad a ddarfu ei dori, ac i'r merched difeddwl a chwarddasant am ei ben, ond i'r swyddog ac i Dduw yr oedd uwchlaw pob pris. Ewch chwithau, ynte, gyfeillion ieuainc, a gwnewch yr un modd. U. H.

POB PETH YN EI FAN EI HUN.

Y man y tyfo'r pren yw'r lle a gar, &c.—Y Parch. W. THOMAS, M.A., (*Yr Athraw*, Mehefin, 1866).

The plant loves best the spot which gave it birth,
Its branches shoot to heaven, its roots to earth;
The little infant on its mother's breast,
Cleaves fondly there, fears not, and is at rest.

The winding rivers as they onward go,
Love all the banks whereby they once did flow;
Our active minds oft love to wander back,
Along the pathways of their ancient track.

From sunny climes the cuckoo seeks our shore,
But to her home will fain return once more:
And he, an exile from his land doth roam,
Still longs to glance upon his distant home.

God to us gave this bright celestial soul,
Which ever turns to Him as to its pole:
The river as it flows cries for the sea,
My soul with longing cries, O God, for Thee.

DYSGU GWNEUTHUR DAIONI.

Y MAE'N beth hynod, tra'r ydys yn gorfod dysgu pob galwedigaeth, pob crefft; tra mae'n rhaid i un ddysgu darllen ac ysgrifenu, pa fodd i ymddwyn mewn cymdeithas, y meddylir y gall celf y celfyddydau—y gelf o ddysgu gwneyd yn iawn, a gwrthwynebu drwg, nad yw hyn yn gofyn un ddysgeidiaeth. Ymddengys ein bod yn meddwl y daw daioni o hono ei hunan.

Yr ydym yn addef fod daioni, i ryw fesur, yn dyfod o hono ei hunan. Os oes drwg etifeddiaethol, y mae hefyd ddaioni etifeddiaethol. Y mae yna lawer o serch pur, sêl dros yr hyn sydd dda—gonestrwydd, ardderchawgrwydd enaid, yn tyfu i fyny mewn calonau dynol heb ymdrech! Y mae llawer o *gydwybod*, o ras, yn ogystal ag o weithredoedd! Y mae yna ryw ddaioni'n enedigol ynom oll—y mae'n enedigaethfraint. Yr ydym weithiau'n colli llawer o hyn yn nhrafferthion a phrofedigaethau'r byd; ond y mae peth o hono'n aros gyda ni hyd y diwedd. Ond, a chaniatau hyn, y mae arnom mewn llawer modd "i ddysgu gwneuthur daioni." Yn gyntaf, mae'n rhaid i ddyn ddysgu *egwyddorion* daioni, ffynnonellau mawrion drychfeddyliau byw allan o'r rhai y mae daioni'n dyfod. Dechreuodd yr Iesu ei bregeth ar y mynydd trwy gyhoeddi y drychfeddyliau hyn:—"Gwyn eu byd y rhai pur o galon: canys hwy a welant Dduw." "Cerwch eich gelynion." "Gwyn eu byd y trugarogion." "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr." "Na weddiwch er mwyn cael eich gweled gan ddynion." "Ceisiwch, a chwi a gewch." "Yr hwn a ddyrchafo ei hun a ostyngir, a'r hwn a ostyngo ei hun a ddyrchefir." Ffyddlondeb i wirionedd a chariad—dyma'r drychfeddyliau mawrion oedd Iesu'n eu cael yn nyfnderoedd ei enaid pan yn cymdeithasu â Duw. Dyma'r egwyddorion sydd yn uno calon dyn â chalon yr holl fyd. Dyma'r deddfau sydd yn rhwymo'r byd moesol wrth orsedd Duw. Mae'r pur o galon *yn gweled Duw*. Mae'r rhai sydd yn gallu maddeu a charu eu gelynion *yn blant i Dduw*. Mae gan y rhai sydd yn byw trwy'r argyhoeddiadau hyna fywyd tragwyddol yn aros ynddynt.

Ond nid yw'n ddigon i glywed y gwirioneddau hyn yn cael eu dysgu, neu eu darllen hwynt yn y Beibl. Mae'n rhaid i ni fyw ynddynt a thrwyddynt. Ac nid yw hyn yn beth rhwydd. Y mae'n cymmeryd yr holl fywyd i wneyd hyn, ac hyd y nod wedi hyn, nid yw y wers ond hanner eu dysgu, o herwydd, yn yr ail le, yr ydym yn cael ein hamgylchynu gan ddylanwadau ag sydd yn ein tynu ffordd arall. Ymosodir arnom gan lu o brofedigaethau bob dydd o'n bywyd. Hefyd, yr ydym yn clywed egwyddorion yn cael eu dal fel yn wirionedd ag sydd yn groes i egwyddorion Iesu. A ddywed Iesu wrthym am garu ein cymydogion "fel nyni ein hunain?" Mae doethineb y byd yn dweyd fod hyn yn anmhossibl ac annymunol: dysga mai dyledswydd pob dyn yw gofalu am dano ei hunan. A ddywed yr Iesu wrthym am gydymdeimlo â'r trallodedig, am gynnorthwyo y tlawd, a dwyn beichiau ein gilydd?

A ddywed ef am i'r cryf gynnorthwyo y gwan? Ond y mae doethineb y byd yn dal fod cynnydd cymdeithas yn ymddybynu, nid ar geisio achub y gwan a chynnorthwyo y digymhorth, ond mewn gwneyd y cryf yn gryfach, y doeth yn ddoethach, a'r da yn well. Dywedir wrthym fod yn well i'r gwan a'r afiach farw allan, a dim ond yr iach i fyw. Y mae yn angenrheidiol, gan hyny, nid i glywed yr hyn a ddywed yr Iesu, ond ei gredu ef. Yr oedd ef, gan hyny, yn gofyn am ffydd, o herwydd ffydd yn yr Iesu, nid ffydd ynddo fel person yw, ond ffydd yn yr egwyddorion oeddynt wedi ymgnawdoli ynddo. Mae yn rhaid i ni ddewis pa un i wasanaethu—yspryd Crist neu yspryd paganiaeth, yr hwn sydd yn ei wrthwynebu heddyw fel y mae wedi gwneyd bob amser. "Nis gall neb wasanaethu dau arglwydd," pan fyddo eu gorchymynion yn groes i'w gilydd. Nis gallwn addoli Duw ar y Sul, a rhywbeth hollol groes drwy yr wythnos. Mae yn rhaid i ni, gan hyny, ddysgu cymmeryd yr Iesu fel ein Harweinydd, gan ymddiried, ar ol iddo arwain y byd mor bell, y gwna ei arwain yn mhellach, hyd nes y byddo pob glin yn plygu, a phob tafod yn cyffesu mai efe yw gwir ddysgawdwr dynion, ac mai efe, mewn gwirionedd, yw "Y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd."

Cofiwn, bob amser, gan hyny, nad yw ffydd yn Iesu yn golygu ffydd yn ei awdurdod bersonol, ond ffydd yn y gwirionedd Dwyfol hwnw a ddysgodd i'r byd.

Heblaw hyn, y mae yna dueddiadau oddifewn i'n heneidiau a'n cyrff ni ein hunain ag sydd yn ein tynu ni i ffwrdd oddiwrth y gwirionedd. Yr ydym yn etifeddu drwg yn ogystal â da o'r gorphenol yn ein gwaed—tueddiadau i wagedd, hunanoldeb, ystyfnigrwydd, pryder, ac ofn. Er mwyn dysgu gwneuthur daioni, y mae yn rhaid i ni ar bob cam wrthwynebu y tueddiadau hyn. Mae yn rhaid i ni adeiladu i fyny arferion da yn lle rhai drwg. Ac nid yw hyn yn rhwydd: y mae'n waith bywyd. Mae'n gofyn dysgyblaeth faith. Ond y mae yn talu yn dda am yr holl drafferth. Mae pob rhyddid yn dda, ond y goreu yw rhyddid moesol—y gallu a gyrhaeddir yn raddol i wneyd yn iawn, i garu yr hyn sydd iawn, i gredu yn yr hyn sydd iawn. Y mae hyn yn rhoddi i ni hunan-foddlonrwydd, hunan-barch, ymddiriedaeth, a gobaith.

Mae gwneyd yn iawn, ynte, yn gelfyddyd—yn gelfyddyd fawr ac anhawdd—yr uchaf o bob celfyddyd. Ond nid yw y gwaith yn feichus: pan fyddo calon dyn mewn gwaith, nid yw y gwaith hwnw yn galed. Yr hyn sydd eisieu arnom er gwneyd daioni yw teimlo *interest* mewn pethau da. Yr ydym yn dysgu gwneyd daioni trwy garu gwneyd daioni; ac y mae yna gynnifer o bethau da i'w cael, fel y gall pob un gael rhywbeth y mae efe yn cael mwynhad wrth ei wneyd. Yr ydym yn byw mewn adeg ac mewn cyflwr ar wareiddiad pan y mae yna rywbeth da yn appelio atom bob dydd am law o gynnorthwy. Bydded fod yn dda genym mai felly y mae. Dylem fod yn ddedwydd am fod arnom gynnifer o alwadau.

C.

SAMUEL W. HUMPRREYS.

Mawrth 17, 1887, yn Attica, Swydd Syneca, Ohio, Samuel W. Humphreys, yn nhy Ann ei unig ferch a'i fab-yn-nghyfraith, Mr. a Mrs. Vanasdal. Ni fu yn glaf ond ychydig ddyddiau. Dydd Sadwrn, Mawrth 19, dygwyd ei gorff gyda'r B. & O. R. R. i Newark, a chladdwyd ef yn mhresenoldeb llawer o'i hen gydnabyddion yn mynwent Saron, ar bwys ei hen gartref am lawer o flynyddoedd, ac yn ymyl ei briod ac amrai o'u plant. Gweinyddwyd mewn pethau crefyddol yn nghapel Saron, ac ar lan y bedd, gan y Parch. E. J. Jones, gweinidog y Plymouth Congregational Church yn Newark. Ganwyd S. W. Humphreys yn 1803, yn hen ardal Llandyssul, Ceredigion. Y mae brawd yn byw yn awr yn y gymnydogaeth hono. Daeth ef a'r teulu i'r wlad hon yn 1845, ac ymsefydlasant yn ardal Newark. Yma y bu farw ei ferch, Mary Killworth, tua 12 mlynedd yn ol, gan adael un mab ar ei hol, yr hwn sydd yn awr tua 18 oed. Tua 1880 bu farw ei briod, ac yn 1884 bu farw Margaret, ei ferch henaf, yr hon oedd yn cadw ty i'w thad, ar ol marwolaeth ei mam. Tua dwy flynedd yn ol gorfodwyd ein hen gyfaill i fyned i Attica i ymgartrefu gydag Ann, ei ferch ieuengaf, a'i unig ferch sydd yn awr yn fwy. Trwy ddiwydrwydd a chynnildeb casglodd ddigon o fuddion bydol i'w gadw yn gyssurus yn ei ddyddiau blin heb bwyso ar neb, er ei fod yn gloff, eiddil ac afiach er ys llawer o flynyddoedd. Yn hyny condemnia ef lawer a adwaenom ar hyd a lled y wlad hon, y rhai a gawsant eu bendithio a chyrff cryfach, iechyd rhagorach, a manteision amgenach nag a gafodd ef; ond annghofiasant rhagddarbod dim erbyn henaint. Deallwn iddo fod yn cadw ysgol ddyddiol yn ei ardal enedigol flynyddau lawer yn ol. Derbyniai y DRYCH drwy y blynyddoedd, darllenai ef yn fanwl bob wythnos, a thalai yn brydlon am dano; ni fynai fod yn nyled neb o ddim. Fel crefyddwr Undodwr selog ydoedd, perthynai i'r hen ysgol, ac yr oedd yn fedrus a deheuig fel dadleuydd dros bynciau ei ffydd. Dymunwn heddwch i'w lwch, a bydded i'r tri wyrion bychain a adawodd ar ei ol wneyd ymdrech i efelychu eu tadcu yn yr amrywiol ragoriaethau a berthynent iddo.

DANIEL THOMAS.

MR. GOL.,—Ymddangosodd yr hyspysiad uchod yn y *Drych* Americanaidd am y 7fed o Ebrill diweddaf, ac os na fydd eich gofod yn brin iawn caniatewch i'r ychydig linellau canlynol gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD am Gorphenaf fel math o attodiad iddo. Yn gyntaf, iawn yw cywiro y camsyniad sydd yn y *Drych* mewn perthynas i flwyddyn ymfudiad S. W. Humphreys: yn y flwyddyn 1852, ac nid 1845 y cymmerodd hyn le. Mab ydoedd yr ymadawedig i Evan W. Humphreys, o Mydroilyn, Llanarth, a gwehydd wrth ei alwedigaeth, a Margaret, cyfnither John Saunders, Undergrove, a'r Parch. D. Saunders o Ferthyr gynt, gweinidog parchus yn mhlith y Bedyddwyr, rhwng yr hwn a'r hen Ddafis o Gastellhywel y bu ymddyddan brawdol ar bwnc y Drindod yn ffurf englynion, y rhai ydynt i'w gweled heddyw yn yr argraffiad newydd o *Delyn Dewi* gan Mr. J. Davies, Llanbedr. Fel un o ddisgynyddion y Saundersiaid trwy ei fam, y mae yn debyg y derbyniodd ein cyfaill T. W. Humphreys (Tomos y Gwehydd) yr ysprydoliaeth, yr hwn y mae ei awen bob amser mewn hwyl ac yn barod at ei gwaith. Yr oedd S. W. Humphreys yn un o naw o blant, a'r hynaf

ond un,o'r rhai nid oes yn awr yn fyw ond tri sef Thomas, Anne, Martha, yr hon sydd yn Parisville, Ohio; un o'r plant oedd y diweddar Barch. E. W. Humphreys, Yellow Springs, Green County, Ohio. Cyn ymfudo tuag America bu Samuel yn ymdrechu am ei fywoliaeth, yn fwyaf neillduol, trwy gadw ysgol. Dechreuodd ar hyn o waith mewn tŷ bychan ar dir Castellhywel. Nid oedd ysgolion yr amser hwnw yn cael eu hystyried yn bethau anhebgorol i bawb yn gyffredin, ac felly, nid oedd yr ysgoldai ond y rhai mwyaf ysmala a digrif yn y byd—rhyw hen 'stafelloedd a magwyrydd, lawer o honynt yn rhy wael i fod o un gwasanaeth arall. Ar ol hyn agorodd ysgol yn hen ysgubor Melin Castellhywel; ar ol hyny mewn rhyw hen ystafell ar glôs Pantsgawen. Ei bedwerydd ysgoldy ydoedd y ty sydd yn awr ddim yn rhy dda i fod yn 'stabal at wasanaeth mynychwyr capel St. John. Bu hefyd yn cadw ysgol yn y manau canlynol:—Yn Mwlchyfadfa, yn y stabal a berthynai i'r ty cwrdd lle y bu ysgrifenydd y llinellau hyn yn dysgu yr A B C pan yn dair neu bedair blwydd oed, ar yr ammôd o fod yr athraw yn dyfod i lawr i'r Fadfa ambell i hanner dydd i gael sucan a llaeth i gin o, a chwareu'r *fiddle* yn dâl am dano; yn Mydroilyn; yn y Derlwyn; mewn ty ar dir Tancoedbach; yn Maesymeillion; yn Penlonfach, a dichon mewn manau ereill. Od lieithr dau o'r lleoedd uchod yr oeddent oll yn mhlwyf Llandyssul, yr hyn sydd yn brawf i S. W. Humphreys gael ei godi i fyny i fod yn fath o athraw neu ysgolfeistr cyffredinol yn mhlwyf ei enedigaeth. Ei wraig ydoedd un o'r enw Margaret Dudley o'r Cwrtnewydd, yr hon a briododd yn y flwyddyn 1843; ac ar yr 20fed o Ebrill, 1852, efe, a'i wraig, a'i blant, yn nghyd a Martha ei chwaer, a Stephen ei gwr, a gychwynasant tuag America mewn llong o'r Cei Newydd. Cyrhaeddasant Liverpool yn llwyddiannus, ond bu yn lled drwblus ar Samuel a'i deulu yno. O herwydd ei gloffi a'i eiddilwch corfforol yn nghyd a phrinder arian, gomeddwyd iddo ef a'i deulu fyned yn mhellach, ac aeth ei chwaer a'i gwr yn y blaen mewn llong yn rhwym i New York. Ond gwawriodd yn fuan, a chafodd Sam a'i deulu hwylio mewn llong arall yn rhwym i Quebec; ac yr oeddynt wedi cyrhaedd Cleveland yn Ohio dri diwrnod o flaen Martha a Stephen. Wedi ymsefydlu, ymroddodd ein cyfaill gyda phenderfyniad di-ildio i ennill bywioliaeth iddo ei hun, a'i wraig, a'i blant, heb fyned yn bwys ar neb, a llwyddodd yn hyny. Cafodd henaint cyssurus mewn digonedd o bob peth oedd yn eisieu arno mewn canlyniad i'w ddiwydrwydd a'i gynnildeb blaenorol. Y gorchwyl cyntaf a ymaflodd ynddo oedd casglu mwyar duon a myned i dref Newark i'w gwerthu. Rhwng un peth a'r llall llwyddodd i brynu fferm fechan, rhyw ddeuddeg erw o dir gerllaw Newark. Parhaodd hyd y diwedd i chwareu yr hen *fiddle*, yr hon oedd ganddo yn nyffryn Clettwr ys llawer dydd; a chwareuai arni yr hen dônau cyn'lleidfaol Cymreig a genid yn hwylus yn nghapeli ei gymmydogaeth enedigol yn yr amser gynt. Mae erbyn heddyw, wedi newid yr hen grwth am y delyn aur, ys dywedir, ar yr hon y chwareua anthemau tragwyddoldeb.

T. T.

POST-CARD SYMPOSIUM.

PWNC:—BETH OEDD EFENGYL IESU GRIST?

SUBJECT:—WHAT WAS THE GOSPEL OF JESUS CHRIST?

Nid cyfundrefn eglwysig o amserau, a manau, a phersonau, a gweithredoedd cyssegredig, ond datganiad o gariad anfesurol ac anmhrynedig y Tad Nefol tuag at bawb o'i greaduriaid; cymhelliad serchog i ymdebygoli iddo mewn rhagoroldeb moesol, yn nglyn ag esiampl ddihafal o fywyd duwiol a dyngarol, ac o ddarpariaeth at ledaeniad y genadwri trwy'r holl fyd.

Mehefin y 4ydd. *Daniel Rees.*

We all see "The Gospel of Jesus Christ" with eyes more or less influenced by habit and light: and every eye has its own point of view. Besides, it is always rather difficult to distinguish between Jesus and his New Testament interpreters; but the nearest I can come to is,—that the Gospel of Jesus Christ is the good news which tells of God's good will to man, and of man's life in God.

June 7th. *J. H. Hopps.*

The Gospel of Jesus Christ was the proclamation that the peace of Heaven may be enjoyed on Earth by all men who strive earnestly to know, and to do what is right. Jesus discovered that the moral capacity of man is equal to his moral responsibility, because man has in the inner life an ever open refuge from all the difficulties and dangers of the world about him, that he may enjoy perfect righteousness, perfect freedom, and perfect peace, and may gather strength and influence to do his duty by his fellow men.

June 13th. *Hobart Clarke.*

Os Efengyl oedd, newydd da oedd; ac os newydd da, nis gallai fod yn cynnwys colledigaeth yr holl hiliogaeth yn Adda a'u cospedigaeth dragwyddol yn uffern; nid oedd dim a fynai ag etholedigaeth ddiammodol; dim â Thrindod ac Iawn dirprwyol a'r gweddill o'r athrawiaethau a elwir yn Efengylaidd mewn eglwysi diweddar; ond cynnwysa, dybygwn, fod Duw yn Dad pob dyn o bob cenedl; fod yr Iesu yn arweinydd i bob un a ewyllysio ei ganlyn, a nefoedd yn gartref i bawb. Gesyd nefoedd i ddechreu yma ac i barhau hwnt i'r llen. Nid yw yr Efengyl yn yr epistolau yn benaf, yn ngeiriau Paul yn benaf; ond yn sicr yn ngeiriau Crist ac yn yr Efengylau. Fe dybia rhai mai Paul yw yr awdurdod penaf mewn perthynas i'r Efengyl, fe dybiaf finau fod yr Iesu o leiaf, yn awdurdod lled dda ar bwnc fel hwn, a'i fod wedi dysgu yr oll sydd yn angenrheidiol i iechydwriaeth. Tybiaf fi fod caru Duw

a charu dyn yn cynnwys crynodeb o'r gredo, a Gweddi'r Arglwydd grynodeb o'r gobaith.

Mehefin 14. *R. Johnson.*

Efengyl Iesu oedd fod teyrnas *nefoedd* yn neshau, nid teyrnas uffern. Ewch am Efengyl at yr Iesu ei hunan, ac nid at John Calvin. Nid yw desgrifiad John Calvin ond gwatwordraeth *(burlesque)* druenus o Efengyl yr Iesu: y mae Calvin wedi gwneuthur Cristionogaeth, yn lle bod yn ddyddanwch, yn hunllef dynoliaeth. Cariad, ac nid cosp, a bwysleisir yn Efengyl yr Iesu. Cariad, nid dychryn yw y cymhellydd Efengylaidd i arwain dyn oddiwrth bechod at rinwedd. Gellir dychrynu trwy fygwth uffern, ond trwy gariad y cynnyrchir cariad. Nid trwy ofn cosp dragwyddol uffern, ond trwy yr argyhoeddiad o gariad Duw yr arweinir dyn i garu Duw. Nid trwy *evictions* John Bull, nid trwy *Crimes Bill* Arglwydd Salisbury y dygir y Gwyddelod i garu y Llywodraeth Seisnig. Nid rhyw John Bull anfeidrol yw Duw, yn ol yr Iesu, ond Duw, cariad yw.

Mehefin 15. *J. Jones.*

Paham beth *oedd?* Mewn ateb i'r beth *yw*, mi dybiaf fi ei bod yn fywioliaeth fras a segur swydd i lawer ag ydynt yn ei marchogaeth yn lle ei gwasanaethu; i rai y mae yn hoelion coffin, ac yn Ddyffryn Baca trwy flynyddoedd eu bodolaeth, yn hunllef ac yn *dyspepsia* parhaus; i ychydig y mae yn fywyd o hunan-ymwadiad calonog er lles cymdeithas, yn gyssur, yn nerth, yn ffydd ddiysgog, yn gydwybod dawel, yn obaith tragwyddol, yn gariad blaen ac ol, ac *all round*, ac yn nerth. I'r merthyron gynt yr *oedd* yn ddyddanwch yn nydd trallod, ac yn nerth yn nghanol y ffagodau tân; ac i'r Cristionogion boreu, yr oedd yn fwyd enaid, yn rhoddi y gallu bob dydd i fod yn fwy na choncwerwyr trwy yr Hwn a'u carodd. A dyma'r beth oedd, y beth yw, a'r beth ddylai fod mewn Cristion o yspryd Crist; caru Duw a charu dyn trwy holl oriau effro bodolaeth.

Mehefin 16. B.W.P.

The gospel is a revelation of things Divine to the human spirit—of the revelation of man to God—of man to man, of man's duty to both. "One is your Father in heaven." All ye are brethren. As a Father, God is goodness, God is love, as sons and brethren, man should resemble the Father, love should pervade the whole human family. Love God, love man. "Do unto others as ye would they should do unto you." Upon these simple principles the Gospel is based, human happiness and redemption from strife, bloodshed, grossness rest.

July 20. *G.*

BETH OEDD EFENGYL IESU GRIST?

Ystyr y gair Efengyl yw newyddion da; ac yn fyr, yr oedd Efengyl Iesu Grist yn—(1) Yn Efengyl cariad Duw at y byd; ei gwreiddyn a'i hanfod yw Tadoldeb Duw. (2) Mae'n Efengyl maboliaeth dyn—dyn yn blentyn i Dduw, yn cyfranogi o'r Ddwyfol anian, wedi ei gymhwyso o ran ei natur ar gyfer rhywbeth uchel, pur a sanctaidd—hyd y nod perffeithrwydd Duw ei hun, yn ol Iesu Grist, mewn ystyr yn bossibl iddo. (3) Mae'n Efengyl agosrwydd Duw at bob dyn unigol. Nid oes un ysmotyn ar y ddaear yn fwy cyssegredig na'r llall, ond pob man lle yr addolir y Tad mewn yspryd a gwirionedd, yn dir sanctaidd ac yn fyw o'r presenoldeb Dwyfol. Nid oes un offrwm nac un cyfryngwr yn angenrheidiol i sicrhau derbyniad i ddyn gyda Duw, dim ond hiraeth didwyll y plentyn am gymmundeb â'i Dad, ac wed'yn, mae'r "orsedd fawr yn rhydd, gwrandewir llais y gwan." (4) Mae'n Efengyl Teyrnas Dduw ar y ddaear. Ei hamcan yw dwyn y byd hwn i'w le, adfer heddwch i fynwes y dyn unigol, i'r teulu, i gymdeithas, ac i'r byd yn gyffredinol. Mae'n ymwneyd â holl agweddau y bywyd dynol, ac nid oes dim yn ei berthynas â hawddfyd dyn fel aelod o gymdeithas, neu ddinesydd y wladwriaeth, nad yw'r Efengyl wedi ei hamcanu i gyffwrdd ag ef er mwyn ei sancteiddio a'i ddyrchafu. (5) Mae'n Efengyl sydd yn gosod y pwys mwyaf o bob peth ar ddaioni syml bywyd beunyddiol dynion cyffredin. Nid rhywbeth mawr mae'n geisio, nid rhywbeth da. *Ideal* yr Efengyl, ei gwron hi, yw, nid y dyn mawr galluog o ran corff neu feddwl, ond y dyn da, gan nad beth fydd ei allanolion. (6) Mae'n Efengyl i bawb—i lawer dosparth a esgeulusid gan bob dosparth arall, a phob cyfundrefn arall. Mae'n Efengyl i'r plentyn. Nid oedd y plentyn o fawr pwys yn yr hen fyd. Nid oedd y syniad diweddar am werth bywyd a phossiblrwydd gogoneddus natur y plentyn wedi cymmeryd gafael ar feddyliau dynion, ac fel canlyniad, yr oedd lladdiad babanod yn arferiad cyffredin a braidd cyfreithlawn yn mhlith cenedloedd mwyaf gwareiddiedig yr hen fyd. Ond daeth dydd coroniad y plentyn bach, pan y dywedodd yr Iesu, "Pwy bynag a dderbynio gyfryw fachgenyn yn fy enw I, a'm derbyn I," ac erbyn heddyw, mae adnoddau goreu y byd Cristionogol yn iswasanaethgar i addysg a dadblygiad y plentyn. Mae'n Efengyl hefyd i'w fam ef. Mae Cristionogaeth wedi bod yn brynedigaeth y fenyw dan iau caethiwed oesau a chyfnodau; a'r *type* uwchaf o'r natur fenywaidd mewn canlyniad yw'r fenyw Gristionogol. (Gwel *Lecky's European Morals*). Mae'n Efengyl hefyd i'r tlodion. Yr oedd pobpeth da yn arfer bod ar gyfer y galluog a'r cyfoethog, Efengyl y byd ar gyfer y dyn mawr; ond deiliaid cyntaf bendithion yr Efengyl oeddynt y tlodion, a'i llais hi heddyw yw "Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly, cyflawnwch gyfraith Crist." (7) Mae'n Efengyl gobaith. Yn y byd hwn, pan y gwawriodd hi, fe wawriodd gobaith ar fyd oedd yn ddiobaith, a lle bynag y teimlir nerth yr Efengyl yn y galon heddyw, nid oes perygl i'r cwestiwn hwnw, "A ydyw bywyd yn werth i'w fyw?" Mae'n Efengyl gobaith am fyd arall a gwell i bawb, nid yn unig i'r

sant, ond os ydyw Duw yn gariad o hyd, i'r pechadur hefyd, hyny yw, os gadawa efe ei bechod. 'Allaf fi ddim credu yn ngoleuni Tadoldeb Duw, y bydd ei agwedd at y pechadur yn cyfnewid ar ol awr angeu, ond credaf y bydd y cariad hwnw sydd wedi myned allan erioed "i geisio ac i achub yr hyn a gollasid," yn canlyn y pechadur nes ei ddal yn y diwedd yn ei rwymau melus ei hun, a'i adfer i'w fynwes.

"Credu wnaf mai da a fydd
Ryw ddydd yn mhell—i bawb ryw ddydd
Y try pob Gaua'n Wanwyn gwyrdd."

(8) Mae'n Efengyl esiampl bersonol. Mae'r holl egwyddorion y soniwyd am danynt wedi eu gwneyd yn gnawd yn mherson Iesu o Nazareth, ac wedi trigo yn mhlith dynion. Mwyach, nid yw *ideal* fawr dynoliaeth berffeithiedig ddim yn freuddwyd diflanol i ddyn, ond yn beth possibl yn rhinwedd deddf yspryd y bywyd. Fe orchfygodd yr Iesu ddrwg y byd—daeth allan o'r frwydr yn fwy na choncwerwr trwy yr hwn a'i carodd. Gallwn ninau, yn nerth ei ysprydoliaeth a'i esiampl ef, wneyd yr un peth. Dyma *secret* dylanwad Cristionogaeth trwy yr oesau. Crist ei hun mewn ystyr yw hanfod yr Efengyl—"yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." W. J.

NODYNAU GWASGAROG.

CYSTADLEUAETH Y DEG EMYN.

Nid yw etto wedi cael y sylw a ddymunwn, ac felly, yr ydym wedi ei ystyried yn well ei adael yn agored hyd Orphenaf 15. Carem yn fawr weled ein cynnulleidfaoedd yn teimlo ac yn dangos dyddordeb ynddo; hyd yma, nid oes ond un gynnulleidfa wedi dangos dim tebyg i ddyddordeb.

Y PARCH. J. GWENOGFRYN EVANS, M.A.

Fe ddarllenir gyda phleser gan dderbynwyr YR YMOFYNYDD fod y Brif Ysgol yn Rhydychain, yr hon ydyw prif ysgol y byd, wedi gwneuthur anrhydedd i Gymru trwy gyflwyno i'n cyfaill Mr. Evans y teitl o M.A. Dymunwn ei longyfarch ar ei lwyddiant, a chaffed oes hir i fwynhau yr anrhydedd, ac i fod o wasanaeth mwy etto i'w oes a'i genedlaeth.

HANES PLWYF LLANGYNWYD.

Os yw chwaeth rhai o'n darllenwyr yn nghyfeiriad yr hanesiol a'r hynafiaethol, dymunwn awgrymu'n wresog i'w sylw lyfr Mr. T. C.

Evans (Cadrawd), fel patrwn da o'r hyn y dylai llyfr felly fod. Deallwn mai gof wrth ei gelfyddyd yw Mr. Evans, ac yn dylyn ei alwedigaeth yn rheolaidd, felly, mwy fyth yw y *credit* mae yn ei deilyngu am ei waith. Yn Saesneg mae yn ysgrifenu, ac y mae yn ysgrifenu fel Sais geni, yn dda, yn ddoniol, ac yn adeiladol. Ceir yma hanes y Parch. Samuel Jones, M.A., un o'r ddwy fil a drowyd allan yn 1662; hanes Wil Hopkin a'r Ferch o Gefn Ydfa; hanes y Bardd o Aberpergwm, &c., &c., yn nghyd â phennodau dyddorol ereill o len gwerin. Pris, 3s. 6c.

"NI THYBIODD YN DRAIS FOD YN OGYFUWCH A DUW."—*Philippiaid* ii. 6.

Mae Dr. Vance Smith, mewn erthygl ar yr uchod yn y *Christian Reformer* diweddaf, yn rhoddi aralleiriad o eiriau yr Apostol—Phil. ii. 6-11—fel hyn:—Na edrychad neb o honoch ar ol ei bethau ei hun, ond edrychad pob un o honoch ar ol buddiannau a hawddfyd ereill; efelychwch esiampl fawr eich Hathraw; bydded ynoch yr un meddwl a amlygodd efe, pan y darfu iddo ymwrthod â breintiau ac anrhydedd ei swydd fel y Messiah. Yn rhinwedd y swydd hono, yr oedd ganddo ef, mewn gwirionedd, hawl i ddefnyddio awdurdod Duw ar y ddaear, ond ni thybiodd ef fod hyn, ei hawl gyfreithlawn, yn beth i'w dreisio neu i afaelyd ynddi. Efe a waghaodd ei hun o honi (yr un syniad yn 2 Cor. viii. 9); bu fyw yn ein plith fel dyn cyffredin, a chymmerodd arno agwedd gwas; Efe a ddarostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd y nod i angeu'r groes. O herwydd paham Duw a'i tra-dyrchafodd ef, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw. UNIT.

Y CHWAREUGERDD, "ALCESTIS."

Anfonwyd copi o gyfieithad Mr. D. Rees o "Alcestis," chwareugerdd Euripides, i Mr. Gladstone ychydig ddyddiau cyn ei daith i'r Deheudir. Fel hyn yr atebodd y gwr anrhydeddus:—"Syr,—Yr wyf yn derbyn eich cyfieithad gyda chydnabyddiaeth ddiffuant, ac yn cael boddhad mawr oddiwrth unrhyw ymgais fyddo yn tueddu i gyssylltu y iaith â'r bobl Gymreig â llenyddiaeth ardderchog a godidog gwlad Groeg. Yn ffyddlon ac ufudd, W. E. Gladstone." Y mae yr ail argraffiad o'r llyfr yn awr ar werth gan Trübner & Co., Ludgate Hill, London. Pris, 2s.; trwy y Post, ceiniog yn rhagor.

Edrychwch sut yr ydych yn siarad wrth blant am y marw. Fel hyn y mae George Dawson yn dywedyd:—Yr wyf wedi adnabod rhai yn dywedyd wrth y plant fod eu tad marw yn y "pwll mawr." Y fath drueni ofnadwy yw dysgu plentyn caruaidd fod "ei dad yn y pwll mawr!" Cynted ag y mae'r plentyn yn ddigon hen, dysgwch hyn iddo; dywedwch wrtho, "Mae Duw wedi rhoi lês i mi ar y tŷ hwn sy' genyf

am dri ugain mlynedd a deg, ac os cymmeraf ofal da am dano, dichon ei estyn i bedwar ugain mlynedd. Ac yna, fy machgen, pan mae'r lés ar ben, caf fyned i ffwrdd at Dduw, a byw mewn tŷ nefol newydd." Mor hawdd dysgu plant i ddeall pethau nefol! Yr oedd Martin Luther yn ysgrifenu at ei fachgen fel hyn:--"Yr oeddwn yn pasio heibio gardd brydferth, ac edrychais trwy y pyrth, a gwelais blant yn chwareu, ac yr oeddynt oll yn ddedwydd iawn, a rhai yn marchogaeth ebolion bach. Ac meddwn I wrtho, 'Pa blant yw y rhai hyn?' Ac ebe fe, 'Dyma'r plant a garant eu tad, a ddywedant y gwir, oeddynt garuaidd i'w brodyr a'i chwiorydd.' Ac meddwn inau, 'Mae genyf finau lanc bychan gartref; a allai efe gael dyfod i'r ardd hon?' Ac ebe yntau, 'O gall, gall ddyfod, ond iddo fod yn fachgen da.'"

CALVINIAETH YN OL DR. CHANNING.

Er mwyn i ddynion ieuainc yr oes hon, i'r rhai mae *five points* Calfin mor annghynefin ag i'r dyn yna yn New York, i gael rhyw syniad am ddychrynfeydd Calfiniaeth, cymmerant y desgrifiad hwn gan Dr. Channing, a welir yn ei "*Moral argument against Calvinism.*" Mae Calfiniaeth yn dysgu fod Duw, mewn caulyniad i bechod Adda, yn bwyta y ffrwyth gwaharddedig, yn dwyn ei holl hiliogaeth i fywyd gyda natur hollol lygredig, fel ag y maent yn hollol annhueddol, annghymhwys, ac wedi eu gwneyd yn wrthwynebol i bob peth sydd yn dda, yn ysprydol, ac yn hollol dueddol i bob drwg, a hyny i barhau. Dysg fod holl ddynolryw, gan eu bod wedi syrthio yn Adda, o dan ddigofaint a melldith Duw, ac felly, wedi eu gwneyd yn agored i bob trueni yn y byd hwn, i angeu ei hun, ac i boenau uffern am byth. Dysg fod Duw, o'i ewyllys da ei hun, wedi ethol allan o'r hiliogaeth gollfarnedig hon ryw ychydig i gael eu hachub gan Grist. Nid yw'r dewisiad hwn wedi ei ffurfio ganddo oddiar ragolwg o'u ffydd, neu eu gweithredoedd da, ond yn gyfangwbl o'i ras a'i gariad ei hun, a'i fod, ar ol eu hethol i fywyd tragwyddol, yn eu hadnewyddu a'u sancteiddio trwy ei oruchwyliaeth Hollalluog a neillduol ei hun, ac yn eu dwyn i stâd o ras o'r hon nis gallant syrthio. Dysg ei fod wedi ewyllysio pasio heibio y gweddill o ddynolryw, a'u hordeinio i ddianrhydedd a digofaint am eu pechodau, er clod i'w gyfiawnder a'i allu; mewn geiriau ereill, mae yn gadael y gweddill i'r llygredd yn yr hwn y ganwyd hwy, mae yn attal y gras sydd yn angenrheidiol ar gyfer eu hadferiad, ac yn eu condemnio i arteithiau mwyaf ofnadwy corff ac enaid yn nhân uffern am byth." UNIT.

I'R AFAL.

Beraidd afal á'i wyneb eirian,—ffrwyth
Yw, hoff fri y berllan;
I fyd glwys y daw'n fwyd glân,
Luniwyd gan nefol anian.

D. MORGAN (GWYNRHYD.)

Manion a Hanesion.

Cyfarfodydd Undebau Ysgolion Ceredigion.—Mae y deuddeg Ysgol Sul sydd yn perthyn i'n cynnulleidfaoedd ni yn y Sir hon wedi eu rhanu yn dri Undeb—pedair Ysgol yn mhob un. Mae dau Undeb wedi bodoli er ys oddeutu ugain mlynedd a theimlir eu bod wedi gwneyd llawer o les. Sefydlwyd Undeb Ysgolion ardal Llandyssul eleni, a gobeithiwn yr aiff yn mlaen gan gasglu nerth o hyd fel y ddau Undeb arall. Daw y gwyliau blynyddol oddiamgylch yn ystod misoedd Mai a Mehefin. Cynnaliwyd Undeb Ysgolion Capelygroes, Alltyplaca, Caeronen, a Llanbedr, yn Capelygroes, dydd Mercher, Mai 25ain. *Feature* newydd yn y cyfarfod hwn oedd, fod y pedwar cor yn uno gyda'u gilydd i ganu yr emynau argraffedig yn y rhagdrefn. Mae y rhagdrefn o'n blaen, ac mae'n *gredit* i bwy bynag a'i gosododd wrth ei gilydd. Cafwyd cyfarfod hwylus o'r dechreu i'r diwedd. Cyfarfyddodd Ysgolion Pantdefaid, Llwynrhydowen, Capel Fadfa a'r Graig, Llandyssul, yn Pantdefaid, ar ddydd Llungwyn, Mai 30ain. Canodd y corau gyda'u gilydd chwech o emynau ar dônau newyddion gan mwyaf, ac un anthem ar y terfyn, dan arweiniad Mr. Evan Evans, Llandyssul. Holwyd y pedair Ysgol gyda'u gilydd ar y ddwy bennod gyntaf yn "Bannau Ffydd Undodwr." Yr oedd cynnulliad da wedi dyfod yn nghyd, a phob peth yn cyduno i wneyd y cyfarfod yn ddechreu da. Yn Cwrtnewydd ar ddydd Llun Mehefin 13eg. y cyfarfyddodd Ysgolion Capel Bryn, Rhydygwin, Ciliau, a Cribin, ac yr oedd yno dorf fawr wedi dyfod yn nghyd. Yr oedd yn beth i'w sylwi, feallai, fod holl weinidogion Undodaidd y Sir yn bresenol yno, a chymmerodd pob un o honynt ryw ran yn y cyfarfodydd. Da oedd genym weled Ysgolion y plant mor llewyrchus, ac yn ateb mewn dull mor barod a chartrefol. Gobeithio y gwelir diwygiad yn yr Undeb hwn mewn un peth erbyn y flwyddyn nesaf. Paham na buasai y corau yn uno gyda'r canu, yn lle pob un ar wahan? Mewn Undeb mae nerth yn y mater hwn fel yn mhob peth arall. Diolchwn yn fawr am yr arwyddion o gynnydd a chynnydd ag mae'r holl gyfarfodydd yn ddangos a llawenhawn yn neilluol wrth weled y dorf fawr o blant a phobl ieuanc sydd yn cael eu magu yn ein Heglwysi a'n Hysgolion Sul. Bendith Duw fyddo'n gorphwys arnynt.—*Gohebydd.*

Mae y Parch. Ed. White yn ddiweddar wedi protestio yn erbyn y meddylddrych fod yr holl Efengyl i'w gael yn yr Efengyl. Yr ydys felly, meddai, yn anwybyddu ysprydoliaeth yr apostolion, ac yn peryglu dyogelwch llawer o'r eglwysi. Dyma bwnc da i gael *Post Card Symposium* arno: Beth yw yr Efengyl?

Nifer newyddiaduron ein gwlad ni yw 13,496. Os dygwydd i ddyn gyflawnu gweithred ganmoladwy, dim ond 17 o'r 13,496 sydd yn clywed am dani; ond os dygwydd iddo gymmysgu mewn tipyn o *scandal*, dim ond 17 o'r 13,496 sydd heb fod yn clywed am hyny. Felly, meddir.

Pe gofynid i lawer cynnulleidfa pa un o'r deg gorchymyn oedd anhawddaf i'w gadw, nid tebyg y ceid ateb unfrydol. Ond yn ddiweddar cafodd arholydd ysgolion yn Lerpwl ateb bron unfrydol mai y pummed oedd. Beth yw y casgliad?

Dywedir fod Dr. Bonar, yr emynwr enwog, yn 77 oed, ei fod yn pregethu bedair gwaith beb Sul, ac nad yw wedi bod allan o'i bwlpud ond un Sul mewn 40 mlynedd.

Gofynir weithiau, Paham yr addolir y Forwyn Fair? Os yw yn *fam Duw*, mae yr ateb yn naturiol, Paham lai?

Blinir Mr. Spurgeon yn dost gan gynnydd heresi yn yr eglwysi; tra y mae y Parch. T. R. Stephenson yn ei gyhuddo o ddwyn camdystiolaeth yn erbyn ei gymmydogion. Ni waeth hyny na pheidio. Nid yw yr eglwysi yn rhydd o heresi, a'u barnu wrth yr hen safonau.

Dywedodd y Canon Williams wrth agor eglwys newydd yn Llanelli, yn ddiweddar, mai gwael fyddai cyflwr Llanelli, mewn ystyr grefyddol, oni bai ymdrech yr Annghyddfurfwyr. Da genym ddeall fod yn Llanelli ychydig o yspryd gwareiddiad heddyw. Cafodd y Parch. John Davies brofiad o yspryd arall tua 1876, pan oedd dau o'r gweinidogion yn cynhyrfu'r *mob* yn ei erbyn.

Dywedir fod y Cyfarfodydd Mai wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni yn Llundain. Nid yw yspryd y blaenfynediant, fodd bynag, ddim heb fod wedi achosi blinder i rai ysprydoedd cyfiawn. Pan gynnygiwyd Dr. Clifford i fod yn llywydd Undeb y Bedyddwyr yn ystod y flwyddyn

nesaf, cododd un i wrthdystio nad oedd y Dr. ddim yn iach yn y ffydd. Cafodd y Dr. ei ethol, fodd bynag, bron yn unfrydol, dim ond wyth yn ei erbyn.

Gwerthir dwfr am geiniog y bwcedaid ger Driffield ar y Yorkshire Wolds.

Gelwid mis Mai yn *trimilki* gan y Sacsoniaid gynt, am eu bod yn dechreu'r godro'r da dair gwaith y dydd.

Dosparthwyd tua 400,000,000 o'r Ysgrythyr, neu ranau o hono, yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf.

Ar un o'r meini a ddarganfyddwyd yn ddiweddar yn Ninefeh, rhoddir a ganlyn fel un a nodweddion gwraig dda: Nid yw byth yn gwlychu ei dannedd a'r diodydd meddwol.

Iechyd yw y cyflwr hwnw yn yr hwn nid yw y corff yn ymwybodol yn bresenol i ni—cyflwr yn yr hwn y mae gwaith yn hawdd a dyledswydd heb fod yn brofiad rhy drwm; yn yr hwn y mae yn llawenydd i weled, i feddwl, i deimlo, i fodoli.

Dyma ddarn o gyffes ffydd newydd sydd yn dyfod yn rhai parthau o Lundain: "Llwyrymwrthodiad i'r bobl, gwahardd-iad ar ran y Wladwriaeth, pob Cristion gyda dwylaw glân, ac arian glân, pob eglwys Gristionogol gyda bwrdd cymmun glân, a phob cartref Cristionogol heb y diafol ynddo."

PRIODAS.

Mai 21ain, yn Capelygroes, gerbron y Parch. D. Evans, Cribin, a Mr. John Jones, cofrestrydd, Mr. John Thomas, Llanwnen, â Miss Anne Davies, Cefncoed.

Marwgofion.

Chwef. 2, Elinor, merch henaf Thomas a Mary Davies, Talfan, yn 42 oed. Bu yn afiach am hanner ei hoes. Ar yr 8fed, daeth tyrfa fawr o berthynasau a chyfeillion i'w hebrwng i fynwent Llancwnlle. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. J. Evans, Abermeurig. Gadawodd dad, mam, dau frawd, a phump chwaer i alaru ar ei hol.

Chwef. 25, yn 35 oed, Margaret, anwyl briod David Thomas, Draper, 30, Wavertree road, Liverpool, a merch y diweddar Daniel a Mary Jenkins, gynt o Bantmoch, Llandyssul. Dyoddefodd yr ymadawedig gystudd hir yn y ddarfodedigaeth yn hynod o amyneddgar, pryd y gweinwyd arni gyda phob gofal a thynerwch gan ei chwaer a'i phriod. Cludwyd ei gweddillion marwol y dydd Mawrth canlynol i dawel orphwys yn Cemetery West Derby. Gweinyddwyd yn y ty ac wrth y bedd gan y Parch. H. V. Mills, gweinidog eglwys Undodaidd Hamilton Road. Gadawodd briod a phedwar o blant bychain, heblaw llawer o berthynasau agos, i alaru eu colled. Boed iddynt gael nerth i ddal i fyny dan eu profedigaeth, gan gofio yr addewid mai

"I'r meirwon mae Duw'r mawredd—yn
Newyddoes ddi ddiwedd; [addaw
Cyfodant, cuaf adwedd,
I dir y byw o dy'r bedd."

Ebrill 5.—A ganlyn sydd adysgrifen o *In Memoriam*, neu *Mourning Card* hen gyfaill ac ysgolhaig i mi gynt yn Pontshan, Llandyssul, yr hwn a ymadawodd ag ardal ei enedigaeth ryw ugain mlynedd a dwy yn ol, ac a ymsefydlodd yn Liverpool. Ei enw y pryd hwnw oedd James Thomas, Bankyplas, lle mae brawd a chwaer iddo yn byw hyd heddyw. Y mae ei berthynasau yn lluosog yn mhlwyf Llandyssul, ac, fel ei hun, yn Undodiaid egwyddorol a gwresog. Yr oedd yn gefnder i'r enwog a'r gweithgar Barch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago, yr hwn a fu ar ymweliad ag ardal ei enedigaeth, sef Llandyssul, ychydig flynyddau yn ol:—

"In affectionate remembrance of James Thomas, who departed this life April 6th. 1887, aged 50 years, and was this day interred at Wallasey Cemetery, Liscard.

"Dark, dark, indeed the grave would be
Had we no light, O God from Thee;
If all we saw were all we knew,
Or hope from reason only grew.

"But calmly now we see him go
From out this world of pain and woe;
We follow to a home on high,
Where pure affections never die."

84, Rappart Road,
Seacombe, 9th April, 1887.

Saer ac adeiladydd oedd yr ymadawedig wrth ei alwedigaeth, a thrwy fedr a diwyd-

rwydd bu yn dra llwyddiannus fel y cyfryw. Perchid ef yn fawr gan ei gydweithwyr, ac nid llai ei barch gan y rhai a weithient dano wedi iddo fyned yn weithroddwr neu yn *employer of labour*. Undodwr ydoedd trwy'r trwch a'r trin, a chydnabyddid ef felly gan y blaid yn Liverpool. Y mae llawer wrth newid eu cymmydogaeth hefyd yn newid eu crefydd,—math o *chameleons* yn newid eu lliwiau gyda newid amgylchiadau. Nid i'r dosparth hwn y perthynai James Thomas. Yr wyf yn meddwl mai i gapel Mr. Beard, yn Renshaw Street, yr oedd yn arferol o fyned ar y Sul, oherwydd siaradai yn uchel am y boneddwr hwnw bob amser. Yr oedd yn ddarllenwr cysson o'r YMOFYNYDD, y *Truthseeker*, a'r *Unitarian Herald*. Nid oedd ganddo blant, ond gadawodd weddw friwedig ei chalon i alaru ar ei ol. Bydded i'w galar gael ei dymheru ag ysproyd y ddau bennill uchod. Ddydd ei angladd, fel y clywais, gwasanaethodd y Parch. T. Lloyd Jones gyda chymmeradwyaeth mawr. Da genyf wybod fod fy nghyfaill, Mr. T. Ll. Jones, er ei fod yn troi yn mhlith y Saeson er ys blynyddau lawer, bellach, etto yn ffyddlon i'r Cymry, ac i'r hen Iaith Gymraeg. Parhaed felly yw dymuniad T.T.

Mai 25, yn 18 oed, bu farw Anne Jones, Cefngwalltorfach. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn Pandefaid. Gweinyddodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Ychydig iechyd a fwynhaodd y druan ymadawedig er dydd ei genedigaeth, fel mai trugaredd yn ddiau oedd iddi gael gollyngdod o'i phoenau.

Meh. 4, Sarah Williams, Rhymni, merch ieuengaf y diweddar David Enoch, yn 25 mlwydd oed. Bu farw ar enedigaeth ei chyntafanedig. Y dydd Mawrth canlynol dygwyd ei chorff gyda'r trên i'r Cefn, a chladdwyd yn mynwent yr Hen-Dy-Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. J. Davies, Dowlais; J. Hathren Davies, Cefn. Nodded y nef fyddo ar ei phriod a'r un bychan, ac hefyd ar y fam oedranus sydd wedi cael llawer o orgydion chwerwon yn ddiweddar.

Meh. 5, Isaac Isaac, Ysgubornewydd, gerllaw Bedwellty, Sir Fynwy, yn 85 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn hanu o deulu hen a chyfrifol iawn—ac mae'r teulu wedi trigiannu yn Ysgubornewydd er'n cenedlaethau lawer. Tuag yn agos i gan' mlynedd yn ol yr oedd un Jacob Isaac, ewythr i'r ymadawedig, yn weinidog yn Moreton Hampstead, yno y bu farw, ac y claddwyd ef. Yn yr hen amser, cyrchai y teulu i Graig-y-Fargoed i addoli, ond yn y deugain mlynedd diweddaf, yr oedd cynnifer ag oedd yn fyw o honynt yn aelodau yn yr Hen-dy-Cwrdd, Cefn. Claddwyd Lewis Isaac tua naw mlynedd yn ol, ac yn awr wele ei frawd wedi blaenu, gan adael un chwaer yn unig ar ol, o deulu lluosog a dylanwadol. Oherwydd eu bod yn byw mewn lle mor annghysbell o bob addoliad Undodaidd, arferai yr hen weinidogion gyrchu yno ar achlysuron i bregethu, ac er cyfleusdra iddynt gwnawd pwlpud o ruddyn derw, yr hwn sydd, erbyn heddyw yn gyssegredig gan adgofion melus llawer cenedlaeth. Ni wyr neb beth yw ei oedran, ond mae 'nawr mor gadarn ag erioed. Y dydd Iau canlynol, dygwyd ei gorff gan dorf luosog i fynwent Bedwellty, lle y gorphwys. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. J. Hathren Davies, a gwasanaethwyd yn yr eglwys gan Ficer y plwyf. Tynerwch Duw fyddo gyda'r chwaer—Miss Isaac—weddill y daith, a nerth a gaffo y dô ieuanc o'r perthynasau i gadw yn fyw y ffydd sydd wedi bod yn anwyl gan eu tadau.

Meh. 12, yn 70 oed, Mr. Evan Jones, gwehydd, Parc-y-felfet, Caerfyrddin. Bu ein cyfaill diniwed yn cadw y capel am tua 30 mlynedd. Gadawodd dy'r capel yn mis Mawrth diweddaf. Bu yn ddosparthwr ffyddlon o'r YMOFYNYDD am flynyddoedd lawer. Fel hyn y mae'r hen ffyddloniaid un ar ol y llall yn ein gadael; ac y mae'r pwnc yn teilyngu sylw difrifol, pwy sydd i gyflawnu'r gwaith a'r gwasanaeth yn y dyfodol? "Gwyn eu byd * * canys," &c.

Er cof am Frances Mary Lloyd.

(Gwel YR YMOFYNYDD diweddaf.)

Frances Mary, O! mor hoffus!
Geneth fwynaidd, lon, gariadus.
Nid yn aml gwelwyd arwydd
Yn ei gwedd o anfoddlonrwydd.

Un dalentog at ddysgeidiaeth,
Un a hoffai bob gwybodaeth;
Mawr ei chof, a'i dawn, a meder,
Mewn aml bishyn cafodd bleser.

Plentyn ufudd i'w rhieni,
Geneth fach oedd pawb yn hoffi,
Hyn ein cred ei bod hi'n gymhwys
Un o flodau heirdd Paradwys.

Penlone. THOS. HUMPHREYS.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—J.J., Aberdare; H.J., Glyn Neath; Rev. J.W., Pantteg; J.D., Capelgroes; J.D., Coedparc; D.D., Lampeter; W.D., Cribin.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Derbynir y rhodd leiaf at y draul o adnewyddu y capel uchod, a chydnabyddir yn ddiolchgar ar yr amlen hon gan yr ysgrifenydd, Rev. D. Evans, Llanwnen. Cydnabyddwyd eisoes, £40 8s. 6ch.; Oliver Howells, Glanyrafon, 10s.; Rhys Evans, Cribin, 10s.; Evan Jones, Ffynnonlas, 5s.; Dinah Jones, etto, 5s.; Sarah Rees, Fronfelen, 5s.; Mary Jones, Cwm, 5s.; Thomas James, Cwmpoth, 5s.; John Howells, Cribin, 5s.; James Evans, etto, 5s.; Mary Jeremiah, etto, 5s.; Mary Davies, Lluast, 5s.; Eleanor Evans, Cwmynach, 5s.; Gwen Jones, Capel, 4s.; Hannah Jenkins, Rhydybene, 3s.; Margaret Morgans, Cribin, 2s. 6ch.; Anne Davies, Bryncesig, 2s.; John Hugh, Board School, Cribin, 10s.; Evan Evans, Llanwnen Shop, £1 10s.; W. Davies, Capel, 2s. 6ch; William Phillips, Newton, Porthcawl, £1 1s.; Titus Lloyd, Porthcawl, 5s.; Mrs. Mathews, Porthcawl, 2s.; Mrs. Evans, Llysfaen, £1 1s.; John Davies, Cefncoed, 5s.; Evan Morgans, Moelfre, 10s.; William Thomas, Pantyronen, 7s. 6ch.

YN AWR YN BAROD

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.